TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Astudiaethau Galwedigaethol - TGCh a Busnes Lefel 1



**Yn gryno**

Bydd y cwrs yn cynnig cyfleoedd cynnydd amrywiol, yn cynnwys dysgu pellach yn y coleg ar un o'n cyrsiau 'lefel nesaf', prentisiaeth neu waith.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... nad ydych yn siwr beth yr ydych eisiau ei wneud

... ydych eisiau rhoi cynnig ar amrywiaeth o feysydd galwedigaethol

... ydych eisiau cael cipolwg ar fywyd yn y coleg

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Bwriad ein cyrsiau Astudio Galwedigaethol yw eich cyflwyno i'r maes astudio y mae gennych ddiddordeb ynddo a'ch helpu i ddatblygu sgiliau dysgu ehangach. Byddwch yn datblygu

sgiliau ymarferol, trosglwyddadwy ac yn cwblhau tasgau sy'n canolbwyntio ar ddangos yr hyn y gallwch ei wneud a'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu.

Mae'r unedau craidd yr un fath ar gyfer pob cwrs Astudio Galwedigaethol, a bydd hyn yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau o fewn y maes galwedigaethol yr ydych wedi'i ddewis. Os byddwch angen newid i gwrs gwahanol, pe bai angen gallwch drosglwyddo'r unedau yr ydych wedi'u hastudio ar y cwrs hwn i'r cwrs nesaf.

Dyma'r unedau craidd:

Bod yn drefnus
Datblygu cynllun cynnydd
Gweithio gydag eraill
Ymchwilio i bwnc

Gall yr unedau TGCh gynnwys:

Creu bwrdd darlunio sy'n dangos pob cam o'r broses
Dylunio cyflwyniad rhyngweithiol
Creu animeiddiad
Ffilmio ffilm fer
Datblygu gwybodaeth ddigidol trwy ddefnyddio TG
Defnyddio technolegau cyfathrebu digidol
Creu taenlen i ddatrys problemau
Creu gwefan

Gall Unedau Busnes gynnwys:

Cynllunio Digwyddiad
Cofnodi Incwm a Gwariant

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng aseiniadau, tasgau ac asesiadau ymarferol, a byddwch yn ennill:

Diploma BTEC Lefel 1 mewn Astudiaethau Galwedigaethol

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Ni cheir unrhyw ofynion ffurfiol. Fodd bynnag, mae diddordeb mewn dysgu am feysydd galwedigaethol gwahanol yn angenrheidiol.

Bydd angen ichi fod yn llawn cymhelliant, yn ddiwyd a bod yn barod i roi cynnig ar bethau newydd yn y meysydd galwedigaethol. Bydd disgwyl ichi ymarfer sgiliau a thechnegau mewn amgylcheddau gwaith realistig yn y coleg, gan eich galluogi i adeiladu ar eich sgiliau cyflogadwyedd. Mae mynychu'r holl sesiynau, ynghyd â bod yn brydlon ar gyfer pob un, yn gwbl angenrheidiol ar gyfer y cwrs hwn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gallech barhau â'ch astudiaethau hyd at Lefel 2 mewn maes galwedigaethol o'ch dewis
Gallech fynd yn eich blaen i ddilyn prentisiaeth
Gallech gael swydd yn eich dewis faes

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd disgwyl ichi brynu offer er mwyn sicrhau eich diogelwch wrth fynd i'r afael â'r elfennau ymarferol. Gallai costau ychwanegol godi yn ystod y flwyddyn, ar gyfer ymweliadau addysgol.